# COFNODION CYFARFOD

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Dydd Mawrth 29 Ebrill 2025 am 10.00am
Cynhaliwyd yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd

## Yn bresennol

### Aelodau

- Claire Bevan (Cadeirydd)
- Julia Evans
- Chris Knight
- David Powell

### Archwilio Mewnol

- Helen Cargill, TIAA

### Archwilio Allanol

- Jeremy Saunders, Archwilio Cymru
- Morgan Burchell, Archwilio Cymru

### Uwch Dîm Arweinyddiaeth

- Rhian Bowen-Davies - Comisiynydd
- Kelly Davies – Prif Swyddog Gweithredol
- Delyth Evans – Pennaeth Cyllid ac Adnoddau
- Rachel Bowen – Cyfarwyddwr Polisi
- Ruth Thomas – Uwch Gynorthwyydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth)

### Ymddiheuriadau

- Sian Richards (Aelod ARAC)

## Camau gweithredu sy'n weddill

| Dyddiad | Manylion | Enw | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 29 Ebrill 2025 | I drefnu cyfarfod cwmpasu i drafod amcanion archwilio 2025/26. | Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 1 Mehefin |
| 29 Ebrill 2025 | Sefydlu'r gofynion ynglŷn â derbyn Barn Flynyddol gan Archwilio Mewnol | Prif Swyddog Gweithredol | Cyfarfod Gorffennaf |

## Eitem 1 ar yr Agenda: Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, yn enwedig Jeremy Saunders, a fydd yn cynrychioli Archwilio Cymru o hyn ymlaen, Morgan Burchell, hyfforddai yn Archwilio Cymru a Helen Cargill, cynrychiolydd TIAA yn y cyfarfod.

Nodwyd bod cyfarfod preifat wedi'i gynnal rhwng Archwilwyr ac Aelodau ARAC cyn busnes ffurfiol y Pwyllgor.

### i) Cofrestr buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod diweddariadau wedi'u derbyn gan Claire Bevan a Chris Knight ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y Gofrestr Buddiannau wedi'i diweddaru.

### ii) Gweithredoedd Tendr Sengl i'w Datgan

Dim i'w nodi.

### iii) Cyngor a ddarparwyd i'r Comisiynydd neu ei staff ers y cyfarfod diwethaf

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredol na ddarparwyd unrhyw gyngor.

## Eitem 2 ar yr Agenda: Adolygu cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf ar 28 Ionawr 2025 (Papur 2i)

### i) Adolygu cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2025.
Darparwyd y diweddariadau canlynol o ran y camau gweithredu sy'n weddill o'r cyfarfod diwethaf:

| Dyddiad | Manylion | Enw | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 30 Ebrill 2024 | Darparu dadansoddiad o ganlyniadau archwilio ar gyfer swyddfeydd Comisiynwyr eraill at ddibenion meincnodi a dysgu ar y cyd | TIAA | Derbyniwyd yr adroddiad. Trafodwyd o dan eitem 3 ar yr agenda. |
| 24 Hydref 2024 | I ddarparu enghraifft o gwmpas archwilio mwy manwl ar gyfer adolygiad | TIAA | Dosbarthwyd cwmpas archwilio manwl i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Trefnir cyfarfod cwmpasu i ddeall pwrpas ac amcanion yr archwiliadau sydd ar y gweill.<br>Cam Gweithredu: Pennaeth Cyllid ac Adnoddau |
| 28 Ionawr 2025 | I roi diweddariad am brosiect Prifysgol Sussex (datblygu adnodd AI) gan gynnwys yr amserlen, cwmpas a swyddogaeth yr adnodd. | TIAA | Hysbyswyd ARAC fod y prosiect 2.5 mlynedd yn mynd rhagddo. Gobeithir y byddai'r adnodd AI sydd wrthi'n cael ei ddatblygu yn gallu chwilio am ffeiliau a thynnu argymhellion a themâu cyffredin i ehangu dyfnder y sylw mewn adroddiadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cadarnhaodd TIAA fod AI hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd eraill i gefnogi archwilwyr gyda'u gwaith, er enghraifft, i wirio gwallau o fewn taenlenni. |

## Eitem 3 ar yr Agenda: Archwilio Mewnol

Cyflwynodd TIAA yr Adroddiad Meincnodi i'r Pwyllgor gan nodi bod cymhariaethau wedi'u gwneud yn erbyn data archwilio Comisiynwyr eraill Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nodwyd bod 12 adroddiad archwilio wedi'u cynhyrchu ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf gyda'r rhan fwyaf yn derbyn sicrwydd sylweddol. Nodwyd nifer isel o argymhellion gweithredu gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru o'i gymharu â'r sefydliadau eraill.

Roedd cyfran fawr o ddiwrnodau archwilio wedi'u neilltuo i archwiliadau ariannol er mwyn adlewyrchu'r risg o gael un gweithiwr proffesiynol Cyllid yn y sefydliad.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad meincnodi a'r sicrwydd a ddarparwyd ganddo. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag archwiliadau a gynhaliwyd ar gyfer Comisiynwyr eraill a fyddai'n cael eu hystyried ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. Cytunodd TIAA i newid y lliwiau ar y graffiau er mwyn gwella'r cyferbyniad yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r TIAA am yr adroddiad.

### i) Adroddiad Diweddariad SICA

Cyflwynodd Helen Cargill yr adroddiad SICA gan dynnu sylw at y ffaith bod dyfarniad achrediad amgylcheddol y Ddraig Werdd wedi'i gadw.

Cadarnhawyd bod archwiliad y Gyflogres wedi'i gwblhau yn gynharach yn y flwyddyn heb unrhyw argymhellion, gan adlewyrchu'r gweithdrefnau a'r rheolaethau cadarn sydd ar waith.

Mae eitemau sy'n weddill ar y cynllun blynyddol yn ymwneud ag archwiliad ar reoli risg a sesiwn wedi'i hwyluso i staff, felly dim ond 15 diwrnod o archwilio a ddefnyddiwyd. Bydd y meysydd hyn yn cael eu cynnwys yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Ar wahân i hyn, roedd y cynllun blynyddol wedi'i gwblhau.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r dolenni i friffiau perthnasol yn Atodiad B ac effeithiau'r newidiadau i'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Atodiad C. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai TIAA yn gweithio tuag at roi mwy o bwyslais ar wella ansawdd ac adrodd yn erbyn dangosyddion perfformiad yn y dyfodol.

### ii) Rheolaethau Ariannol Allweddol

Cyflwynodd Helen Cargill bapur 3ii ar Reolaethau Ariannol Allweddol, gan nodi bod gwahanol feysydd yn cael eu hystyried bob blwyddyn ar sail gylchol. Nid oedd unrhyw argymhellion wedi'u rhestru ar gyfer gweithredu. Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r sicrwydd sylweddol a ddarparwyd yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r TIAA am y diweddariad a'r adroddiad.

## Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol

Cyflwynodd TIAA yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol gan dynnu sylw at y ffaith bod tri adolygiad wedi digwydd, a bod pob un wedi derbyn ‘sicrwydd sylweddol’. Y farn gyffredinol oedd bod rheolaethau rhesymol ac effeithiol ar waith.

Cadarnhawyd nad oedd y dyddiau wrth gefn wedi'u defnyddio, a bod 15 diwrnod yn dderbyniol ar gyfer ffurfio barn ar y prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu sydd ar waith.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Julia Evans, cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol i ymchwilio i'r ffynhonnell ofynnol ar gyfer darparu barn flynyddol gan Archwilio Mewnol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r TIAA am y diweddariad a’r adroddiad.

## Eitem 5 ar yr Agenda: Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26

Cyflwynwyd Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 i’r Pwyllgor am gymeradwyaeth.

Trafodwyd y rhesymeg dros gynnwys Seiberddiogelwch yn y cynllun archwilio blynyddol o ystyried y gwaith a wnaed eisoes gan Pure Cyber. Mynegodd y Comisiynydd ei bod yn bwysig ystyried pwy fyddai yn y sefyllfa orau i roi sicrwydd ar y gwahanol faterion. Cytunwyd i ystyried symud y dyddiau o archwiliad Seiberddiogelwch i staffio neu gaffael monitro contractau. Awgrymodd Helen Cargill hefyd y gallai datblygu Fframwaith Mapio Sicrwydd fod yn ymarfer defnyddiol i benderfynu ar ffynonellau sicrwydd eraill y gellid eu darparu i ARAC.

Tynnodd Helen Cargill sylw at y targedau ar dudalen 11 a fydd yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad archwilio mewnol wrth gyflawni’r Cynllun Blynyddol.

## Eitem 6 ar yr Agenda: Adolygiad o effeithiolrwydd Archwilio Mewnol

(Gadawodd Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol y cyfarfod ar gyfer y trafodaethau am yr eitem hon ar yr agenda).

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau bapur yn adolygu effeithiolrwydd Archwilio Mewnol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod tri archwiliad wedi bod yn ystod 2024-25. Roedd problemau ynglŷn ag amseroedd ymateb a rhwyddineb gweithio wedi codi yn ystod y flwyddyn, serch hynny, nid oedd unrhyw broblemau'n ymwneud ag ansawdd yr archwiliadau a'r adroddiadau na'r sicrwydd a ddarparwyd ganddynt.

Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cael amserlen bresenoldeb wedi'i chynllunio gan TIAA ar ddechrau'r flwyddyn.

Rhoddodd y Cadeirydd adborth ar bwyntiau allweddol y drafodaeth i TIAA, yn ogystal â nodi'r diweddariadau positif a chynhwysfawr a rannwyd yng nghyfarfod mis Ebrill. Soniodd TIAA am y newidiadau i brosesau gweithredol sy'n digwydd yn fewnol a sicrhaodd y Pwyllgor fod nifer o welliannau ar y gweill i sianeli digidol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac y byddent yn dod i rym ym mis Medi.

## Eitem 7 ar yr Agenda: Archwilio Cymru – Diweddariad Ebrill

Cyflwynodd Archwilio Cymru Bapur 7, gan roi trosolwg o’r cynllun blynyddol, y cynllun ffioedd a'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol.

Tynnodd Archwilio Cymru sylw at ganllaw a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Bwyllgorau Archwilio a llywodraethu da:

Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol | Archwilio Cymru

Mewn ymateb i gwestiwn gan David Powell, cadarnhawyd nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ymgymryd ag Adolygiadau Cynaliadwyedd Ariannol Comisiynwyr Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am y diweddariad.

## Eitem 8 ar yr Agenda: Archwilio Cymru – Cynllun Archwilio Blynyddol

Cyflwynodd Jeremy Saunders Gynllun Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2025/26, gan nodi'r amcanion a'r amserlenni ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai Helen Goddard yn Arweinydd Ymgysylltu, a Jeremy Saunders a Morgan Burchell fyddai'n rheoli'r cyfrif.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am y Cynllun Archwilio Blynyddol.

## Eitem 9 ar yr Agenda: Cylch Gorchwyl ARAC

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu Gylch Gorchwyl Diwygiedig ARAC i'r Pwyllgor, gan nodi bod mân newidiadau wedi'u gwneud i Atodiad A i adlewyrchu amseriad cyflwyno'r papurau.

Nododd y Pwyllgor y newidiadau a chymeradwyodd Gylch Gorchwyl ARAC.

## Eitem 10 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 2024-25

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad blynyddol 2024-25 yn ffurfiol i'r Pwyllgor, gan ddiolch i aelodau am eu hymroddiad o ran presenoldeb a chyfraniadau mewn cyfarfodydd.

Nodwyd bod pob Aelod wedi cael cyfle i adolygu'r adroddiad drafft cyn y cyfarfod.

Er gwaethaf newid yn yr uwch staff, adroddodd y Pwyllgor am broses bontio llyfn o ran y Comisiynydd a'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau newydd a diolchodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am eu gwaith cynllunio effeithiol yn ystod y cyfnod pontio.

Cymeradwywyd yr adroddiad drafft yn amodol ar archwiliad ariannol Archwilio Cymru.

## Eitem 11 ar yr Agenda: Cofrestr Risg Strategol

i) **Cofrestr Risg**

ii) **Papur eglurhaol ar risg**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol bapurau'r Gofrestr Risg Strategol, gan dynnu sylw at fformat newydd y Gofrestr Risg yn dilyn trafodaethau ar archwaeth risg yn y sesiwn ddatblygu ddiweddar.

Cadarnhawyd bod y categoreiddio ar gyfer archwaeth risg bellach yn cael ei gynnwys ochr yn ochr â phob risg ac yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd misol yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cadarnhaodd y Comisiynydd nad oedd unrhyw ddatganiad am archwaeth risg cyffredinol ar gyfer y sefydliad, ond roedd yr archwaeth risg hwnnw yn ddibynnol ar y mater dan sylw.

Croesawodd y Pwyllgor y newidiadau a wnaed a diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredol am y diweddariadau a wnaed i dempled yr adroddiad.

## Eitem 12 ar yr Agenda: Diweddariad am y cynllun gwaith

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Polisi drosolwg o'r gwaith diweddar a chadarnhaodd fod 440 o ymatebion wedi'u derbyn ar gyfer yr ymarfer ymgynghori yn dilyn rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr ledled Cymru.

Mae gwaith cynllunio ar waith i ddatblygu rhaglen waith a fydd yn cael ei chyhoeddi ddechrau Mai.

Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'r Comisiynydd yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd ynglŷn â chyflwyno'r Bil Bysiau a bod yr amserlen fer ar gyfer ymateb wedi cael ei herio.

Cafwyd/ceir presenoldeb ym mhob un o Gynadleddau'r Pleidiau Gwleidyddol y Gwanwyn hwn i gwrdd â chynrychiolwyr etholedig yng Nghymru.

Cadarnhawyd bod tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i chyflwyno i Fodiwl 7 o Ymchwiliad Covid a bod y Prif Swyddog Gweithredol yn gweithio gyda'r cyn Gomisiynydd ar y gwaith hwn.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Polisi am y diweddariad cynhwysfawr a'r papur atodol a nododd y Cadeirydd y swm sylweddol o weithgarwch a wnaed yn ystod y misoedd diwethaf.

## Eitem 13 ar yr Agenda: Adroddiad Llywodraethu Chwarterol:

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol uchafbwyntiau'r adroddiadau chwarterol.

### i) Adroddiad Llywodraethu

Derbyniwyd dau gais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn ystod y chwarter hwn. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

### ii) Adroddiad Iechyd Sefydliadol

Cadarnhawyd bod dau aelod o staff wedi gadael y sefydliad ym mis Chwefror. Roedd swydd wag y Gweinyddydd Cymorth Tîm wedi'i rheoli'n fewnol drwy ailstrwythuro rolau staff cyfredol. Roedd y broses recriwtio allanol am Swyddog Cyfathrebu yn mynd rhagddi. Nodwyd bod absenoldeb salwch yn eithriadol o isel yn ystod y chwarter ac nad oedd unrhyw bryderon.

Roedd nifer o gyfleoedd hyfforddi a datblygu staff wedi'u trefnu ar gyfer Ch1 ac roedd gwahoddiadau wedi'u hanfon at Aelodau ARAC. Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredol am y cyfle i Aelodau fynychu'r sesiynau hyfforddi sydd ar y gweill.

Eglurwyd y strwythur tâl ar gyfer contract y Rhaglen Cymorth i Weithwyr ac Iechyd Galwedigaethol.

### iii) Adroddiad Cyfathrebu

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol yr adroddiad, a ysgrifennwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, fel trosolwg o'r chwarter. Tynnwyd sylw at y ffaith y bu ymgysylltu cynhwysfawr, gan arwain at nifer fawr o gyfleoedd cyfathrebu / yn y cyfryngau. Hysbyswyd y Pwyllgor fod ystod eang o bostiadau a fideos cyfryngau cymdeithasol wedi'u treialu yn ogystal â rhyddhau datganiadau i'r wasg a chyfweliadau.

Cafodd y Comisiynydd a'r tîm ganmoliaeth am eu ffordd ragweithiol o gyfathrebu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredol am yr adroddiad cynhwysfawr a nododd y gweithgarwch sylweddol a ddigwyddodd yn ystod y chwarter.

### iv) Adroddiad Cyllid

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan grynhoi'r prif newidiadau yn ystod y chwarter diwethaf. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cyfrifon diwedd blwyddyn wedi'u cwblhau, yn amodol ar archwiliad mewnol. Mae cyfarfod Pwyllgor arbennig wedi'i drefnu ar 11 Medi i gymeradwyo'r cyfrifon.

Cadarnhawyd nad oedd Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi derbyn cadarnhad o ran a fyddai cyllideb ychwanegol yn cael ei derbyn ar gyfer y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gan yr adroddiad a gwariant dyraniad y gyllideb ar draws y flwyddyn ariannol flaenorol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid ac Adnoddau am gynnwys y camau gweithredu tendro yn y papur ac am y sicrwydd o'r adroddiad yn gyffredinol.

### v) Cerdyn sgorio cytbwys

Nododd y Pwyllgor y Cerdyn Storio Cytbwys. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau Llywodraethu Chwarterol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor yn y maes hwn,

## Eitem 14 ar yr Agenda: Adroddiad Seiberwydnwch

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad i'r Pwyllgor ar weithgarwch y Comisiynydd ar seiberwydnwch yn ystod y chwarter blaenorol.

Oherwydd y risgiau diogelwch cysylltiedig, nid yw'r eitem hon ar yr agenda wedi'i chynnwys yn y cofnodion.

## Eitem 15 ar yr Agenda: Polisïau Allweddol: Mynegi Pryderon

Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredol y polisi diwygiedig i'w gymeradwyo, gan nodi bod cyfrif e-bost penodedig wedi'i sefydlu ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor at ddibenion cyfathrebu â staff / codi pryderon.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y polisi.

## Eitem 16 ar yr Agenda: Treuliau'r Comisiynydd (Papur 9)

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrir yn y Gofrestr Treuliau.

## Eitem 17 ar yr Agenda: Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch (Papur 10)

Nododd y Pwyllgor yr eitemau a restrir yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

## Eitem 18 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Pwyllgor y byddai strwythur cyfarfodydd y Pwyllgor yn newid o fis Gorffennaf o ganlyniad i adborth, er mwyn caniatáu trafodaeth anffurfiol a sesiynau datblygu ar ôl pob cyfarfod ffurfiol.

Nodwyd bod cyfnod Julia Evans fel Aelod ARAC yn dod i ben ym mis Hydref, ond y byddai ei chyfarfod wyneb yn wyneb olaf ym mis Gorffennaf.

## Eitem 19 ar yr Agenda: Adolygiad o'r cyfarfod, gan gynnwys trafodaeth am eitemau’r agenda yn y dyfodol, diwrnodau datblygu a chyfarfodydd ffocws

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y trafodaethau defnyddiol a diddorol yng nghyfarfod diwedd y flwyddyn ac edrychodd ymlaen at groesawu pawb i'r cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Diolchodd y Comisiynydd a’r Cadeirydd i’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth am baratoi’r papurau ac am eu hansawdd.

### Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf:  Dydd Iau 24 Gorffennaf - 10.00 am yng Ngholeg Caerdydd a’r Fro.